

DYDDIEDIG

2019

RHWYDWAITH GWRTH-DWYLL

CENEDLAETHOL

A'R

ASiantaeth Safonau Bwyd

CYTUNDEB CYDWEITHREDU

ADRANNAU 78 a 79

DEDDF PWERAU YMCHWILIO 2016

DEDDF PWERAU YMCHWILIO 2016

AWDURDODIADAU AR GYFER CAEL DATA CYFATHREBU

CYTUNDEB CYDWEITHREDU

Y Cytundeb

1. Cytundeb cydweithredu trosfwaol yw hwn a wneir o dan Adran 78 Deddf Pwerau Ymchwilio 2016 ('y Ddeddf').
2. Gwneir y Cytundeb hwn at ddiben darparu gwasanaeth pwynt cyswllt unigol a rennir sy'n ymwneud â chaffael data cyfathrebu o dan y Ddeddf.

Cefndir

3. Cafodd Deddf Pwerau Ymchwilio 2016 Gydsyniad Brenhinol ar 29 Tachwedd 2016. Mae adran 78 o'r Ddeddf yn darparu bod cytundeb cydweithredu yn gytundeb (heblaw am gytundeb cydweithredu gan yr heddlu) lle:
 - mae awdurdod cyhoeddus perthnasol ("yr Awdurdod sy'n Cyflenwi") yn cynnig gwasanaethau swyddogion eraill yr awdurdod hwnnw i awdurdod cyhoeddus perthnasol arall ("yr Awdurdod sy'n Tanysgrifio") at ddibenion swyddogaethau'r awdurdod sy'n tanysgrifio o dan y Rhan hon
 - mae swyddogion yr Awdurdod sy'n Cyflenwi yn gweithredu fel pwyntiau cyswllt unigol ar gyfer swyddogion yr Awdurdod sy'n Tanysgrifio.

Diffiniadau a Dehongliadau

| Y Ddeddf | Yn golygu Deddf Pwerau Ymchwilio 2016 |
|-----------------|--|
| Data Cyfathrebu | <p>Mae'n golygu'r un peth â'r hyn a nodir yn adran 261 (5) o'r Ddeddf.</p> <p>Mae data cyfathrebu, mewn perthynas â gweithredwr telathrebu, gwasanaeth telathrebu neu system delathrebu, yn golygu data endid neu ddata digwyddiadau</p> <p>(a) sy'n cael ei gadw (neu sydd i'w gadw neu'n gallu cael ei gadw) gan, neu ar ran, weithredwr telathrebu ac</p> <ol style="list-style-type: none">(i) mae'n cyfeirio at endid y darperir gwasanaeth telathrebu iddo ac sy'n ymwneud â darparu'r gwasanaeth,(ii) mae wedi'i gynnwys fel rhan o gyfathrebiad, ynghlwm wrtho neu'n gysylltiedig ag o mewn ffordd resymegol (boed hynny gan yr anfonwr neu fel arall) at ddibenion system delathrebu sy'n cael ei defnyddio neu a allai gael ei defnyddio i drosglwyddo'r cyfathrebiad, neu nad yw'n dod o dan is-baragraff (i) neu (ii) ond yn ymwneud â defnyddio gwasanaeth telathrebu neu system |

| | |
|-------------------------------------|---|
| | <p>delathrebu,</p> <p>(b) sydd ar gael yn uniongyrchol o system delathrebu ac sy'n dod o dan is-baragraff (ii) o baragraff (a), neu</p> <p>(c) sydd yn cyd-fynd â'r canlynol</p> <p>(i) yn cael ei gadw (neu sydd i'w gadw neu'n gallu cael ei gadw) gan, neu ar ran, weithredwr telathrebu,</p> <p>(ii) yn ymwneud â phensaernïaeth system delathrebu</p> <p>(iii) nid yw'n ymwneud â pherson penodol,</p> <p>ond nid yw'n cynnwys unrhyw wybodaeth a geir mewn cyfathrebiad nac unrhyw beth a fyddai, yn absenoldeb is-adran (6)(b), yn cael ei ystyried yn gynnwys cyfathrebiad.</p> |
| Corff Awdurdodi Annibynnol | Mae adran 60A o'r Ddeddf yn rhoi pŵer i'r Comisiynydd Pwerau Ymchwilio (IPC) awdurdodi rhai ceisiadau i gaffael data cyfathrebu. Yn ymarferol, bydd yr IPC yn dirprwyo'r swyddogaethau hyn i'w staff. Bydd y staff hyn yn gweithio i gorff awdurdodi annibynnol a elwir yn Swyddfa Awdurdodi Data Cyfathrebu (OCDA). |
| Yr unigolyn sy'n awdurdodi | <p>Mae hyn yn golygu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Y swyddog awdurdodi yn yr OCDA. • Comisiynydd Barnwrol: person y mae ganddo neu y bu ganddo swydd farnwrol, a benodwyd o dan adran 227 o'r Ddeddf, sy'n gyfrifol am gymeradwyo ceisiadau i nodi neu gadarnhau ffynonellau newyddiadurol. |
| Pwynt Cyswllt Unigol | Mae'r pwynt cyswllt unigol (PCU) yn unigolyn sydd wedi'i hyfforddi'n ffurfiol i hwyluso caffael data cyfathrebu mewn modd cyfreithlon a hwyluso cydweithio effeithiol rhwng awdurdod cyhoeddus, yr OCDA, gweithredwyr telathrebu a gweithredwyr post. Er mwyn bod yn achrededig, rhaid i unigolyn gwblhau cwrs hyfforddi sy'n briodol ar gyfer rôl PCU a rhaid iddo fod wedi cael cod adnabod PCU unigryw. |
| Uwch Swyddog Cyfrifol | Rhaid i'r Uwch Swyddog Cyfrifol gyflawni rôl uwch mewn awdurdod cyhoeddus. Rhaid i'r rôl hon fod ar yr un lefel â'r uwch swyddog dynodedig fel sy'n ofynnol ar gyfer yr Awdurdod sy'n Tanysgrifio. |
| Yr Awdurdod sy'n Cyflenwi | Mae hyn yn golygu Cyngor Bwrdeistref Metropolitan Tameside, yr Awdurdod sy'n Rheoli'r Rhwydwaith Gwrth-dwyll Cenedlaethol (Gwasanaethau Data a Gwybodaeth NAFN) y mae ei brif swyddfa yn Swyddfeydd y Cyngor, Neuadd y Dref Dukinfield, King Street, Dukinfield, Tameside SK16 4LA. |
| Yr Awdurdod sy'n Tanysgrifio | Mae hyn yn golygu'r Asiantaeth Safonau Bwyd sydd â'i phrif swyddfa yn Clive House, 70 Petty France, Llundain, SW1 9EX. |
| Awdurdodiad | Mae hyn yn golygu'r awdurdodiad a roddir gan unigolyn sy'n awdurdodi o dan adran 60A o'r Ddeddf at y diben statudol perthnasol yn unig. |

| | |
|----------------------------------|--|
| Diben statudol perthnasol | Mae hyn yn golygu'r diben y mae angen yr wybodaeth ar ei gyfer fel y nodir yn adran 60A (7). |
| Oriau busnes safonol | <p>Mae hyn yn golygu'r cyfnodau amser canlynol (ac eithrio gwyliau cyhoeddus):</p> <ul style="list-style-type: none"> • Dydd Llun - Dydd Mercher 08:30 - 17:00 • Dydd Iau 08:30 - 16:30 • Dydd Gwener 08:30 - 16:00 <p>Amherir ar wasanaethau, fel sy'n digwydd bob blwyddyn, dros gyfnod y Nadolig gan y bydd y swyddfa ar gau. Rhoddir gwybod am hyn ymlaen llaw.</p> |

Partïon y Cytundeb

4. Yr awdurdodau cyhoeddus perthnasol sy'n rhan o'r cytundeb hwn yw:
 - i. Cyngor Bwrdeistref Metropolitan Tameside (yr Awdurdod sy'n Cyflenwi), drwy'r Rhwydwaith Gwrth-dwyll Cenedlaethol (NAFN);
 - ii. Yr Asiantaeth Safonau Bwyd (yr Awdurdod sy'n Tanysgrifio).
5. Rhaid i bob aelod sy'n tanysgrifio i'r NAFN fod yn rhan o Gytundeb Aelodaeth NAFN. Mae'r Cytundeb Cydweithredu hwn wedi'i ymgorffori yn y Cytundeb Aelodaeth hwnnw sydd wedi'i ddiwygio a'i ddiweddarau yn unol â hynny.

Gwasanaeth i'w ddarparu

6. Bydd swyddogion yr Awdurdod sy'n Cyflenwi yn gweithredu fel Pwyntiau Cyswllt Unigol ar gyfer swyddogion yr Awdurdod sy'n Tanysgrifio. Mae adran 76(4) o'r Ddeddf yn cadarnhau bod person yn gweithredu fel Pwynt Cyswllt Unigol os yw'r person hwnnw'n swyddog i awdurdod cyhoeddus perthnasol ac yn gyfrifol am gynghori swyddogion perthnasol ar wneud cais am awdurdodiadau ac am gynghori uwch swyddogion dynodedig perthnasol ar ddyfarnu awdurdodiadau.
7. Gall person sy'n gweithredu fel Pwynt Cyswllt Unigol gynghori swyddog mewn Awdurdod sy'n Tanysgrifio, y Corff Awdurdodi Annibynnol neu unrhyw sefydliad perthnasol arall ar y canlynol:
 - i. y dulliau mwyaf priodol a/neu ymarferol er mwyn cael data cyfathrebu
 - ii. y gost, a'r goblygiadau o ran adnoddau, ar gyfer:
 - yr Awdurdod sy'n Tanysgrifio sy'n ceisio cael y data
 - y gweithredwr telathrebu sy'n datgelu'r data
 - iii. unrhyw ganlyniadau anfwriadol yr awdurdodiad arfaethedig
 - iv. unrhyw faterion ynghylch cyfreithlondeb yr awdurdodiad arfaethedig

- v. cydymffurfio â'r diben statudol perthnasol.
- vi. a yw'r gofynion a osodwyd yn rhinwedd awdurdodiad wedi'u bodloni
- vii. y defnydd i gefnogi gweithrediadau neu ymchwiliadau i ddata cyfathrebu a gafwyd yn unol ag awdurdodiad
- viii. unrhyw effeithiau eraill o roi awdurdodiad.

Nid yw'r Awdurdod sy'n Cyflenwi yn gyfrifol am weithredoedd unrhyw un o swyddogion yr Awdurdod sy'n Tanysgrifio, y Corff Awdurdodi Annibynnol nac unrhyw sefydliad perthnasol arall ar gyfer y camau gweithredu a ddewiswyd.

- 8. Bydd yr Awdurdod sy'n Cyflenwi yn darparu gwasanaethau yn ystod oriau busnes safonol. Ni fydd unrhyw wasanaeth brys yn cael ei ddarparu y tu allan i'r oriau hyn.

Cofnodion i'w cadw gan awdurdod cyhoeddus perthnasol

- 9. Bydd yr Awdurdod sy'n Cyflenwi yn cadw ceisiadau, penderfyniadau, awdurdodiadau, copiâu o hysbysiadau, a chofnodion o awdurdodiadau a dynnwyd yn ôl a hysbysiadau a ddiddymwyd ar ffurf ysgrifenedig neu electronig, ac yn eu hatodi'n ffisegol neu eu croesgyfeirio lle maent yn gysylltiedig â'i gilydd. Bydd yr Awdurdod sy'n Cyflenwi hefyd yn cadw cofnod o'r dyddiad, a lle y bo'n briodol, yr amser pan fydd pob hysbysiad neu awdurdodiad yn cael ei roi neu ei ddyfarnu, ei adnewyddu neu ei ddiddymu. Bydd cofnodion a gedwir gan yr Awdurdod sy'n Cyflenwi yn cael eu cadw yn unol â'r trefniadau y cytunwyd arnynt yn flaenorol gyda'r Comisiynydd Pwerau Ymchwilio (IPC). Bydd y cofnodion hyn ar gael i'w harchwilio gan yr IPC.

Cyfnod y Cytundeb

- 10. Mae'r Cytundeb Cydweithredu hwn yn ddilys am hyd cytundeb aelodaeth NAFN.

Costau

- 11. O dan Adran 79 y Ddeddf, bydd unrhyw daliadau neu gostau ar gyfer cael data cyfathrebu ac wrth gyflenwi'r gwasanaeth o dan y Cytundeb Aelodaeth, sy'n cynnwys y Cytundeb Cydweithredu hwn, yn cael eu hadennill gan yr Awdurdod sy'n Tanysgrifio.

Diben Statudol ar gyfer Awdurdodi Caffael Data Cyfathrebu

- 12. O dan y Cytundeb Cydweithredu hwn, mae'r Awdurdod sy'n Cyflenwi yn darparu'r gwasanaeth y manylir arno yn yr achosion uchod i'r Awdurdod sy'n Tanysgrifio ar gyfer y dibenion statudol a awdurdodwyd dan y gyfraith.
- 13. O dan y Cytundeb Cydweithredu hwn, pwysleisir mai dim ond os yw unigolyn sy'n awdurdodi yn ystyried bod cael data cyfathrebu at y diben dan sylw yn angenrheidiol ac yn gymesur, y gellir caniatáu i hynny ddigwydd. Cyfrifoldeb yr Awdurdod sy'n Tanysgrifio yw hysbysu'r Awdurdod sy'n Cyflenwi yn ffurfiol os na fydd angen unrhyw gais awdurdodedig mwyach.

Llofnodwyd



Dyddiedig 2 Mawrth 2019

Wendy Poole, Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio a Rheoli Risg, CBM
Tameside a Chadeirydd Bwrdd Gweithredol y Rhwydwaith Gwrth-dwyll
Cenedlaethol

Llofnodwyd



Dyddiedig 28 Chwefror 2019

Darren Davies, Pennaeth Troseddau Bwyd, Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd, Asiantaeth
Safonau Bwyd.

SWYDDOGOL